**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 2) 2026**

1. Ar 15 Ebrill 2026 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiad parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Ebrill 2026 neu ar y dyddiadau y gosodir yr arwyddion a'r marciau ffordd, pa un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir fel "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 2) 2026".
3. Gellir archwilio copi o'r Hysbysiad a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar  wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 20 Ebrill 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Ychwanegu at Atodlenni Map AW55, AW56, AX55 AC AX56**
**NI fydd y cyfyngiadau canlynol yn berthnasol pan fo'r marciau wedi'u hepgor wrth fynediad gatiau, croesfan gerbydau neu gerddwyr, neu unrhyw rai o'r ffyrdd a enwir.**

**Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**
**Ffordd y Cambria, Sili (AX55, AX56 ac AW56)**
Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â chylchfan Hayes Road i gyfeiriad y de-orllewin am oddeutu 195 metr.
Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Hayes Lane i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am oddeutu 100 metr.
Ar ochr y dwyrain a'r de-ddwyrain o'r gyffordd â chylchfan Hayes Road i gyfeiriad y de ac yna'r de-orllewin am oddeutu 303 metr.

**Rhos Noriaidd, Sili (AX55)**
Ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Ffordd y Cambria i gyfeiriad y gogledd-orllewin am oddeutu 10 metr.

**Hayes Lane, Sili (AX55)**
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Ffordd y Cambria i gyfeiriad y de-ddwyrain am oddeutu 10 metr.

**Hayes Raod, Sili (AW55 ac AW56)**
Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Ffordd y Cambria i gyfeiriad y de-orllewin am oddeutu 20 metr.

Dyddiedig 16 Ebrill 2026.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA